REES, DAVID (1683? - 1748), gweinidog gyda'r Bedyddwyr a diwinydd

Enw: David Rees
Dyddiad geni: 1683?
Dyddiad marw: 1748
Rhiant: Rees David
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Bedyddwyr a diwinydd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Benjamin George Owens

Dywedir ei eni yn 1683, yn fab i Rees David, amaethwr cefnog o gyffiniau Caerffili ac aelod selog yn eglwys Fedyddiedig yr Hengoed. Addysgwyd ef gan Samuel Jones ym Mrynllywarch, ac ymddengys ei fedyddio a'i gymell i bregethu yn yr Hengoed yn y 1700au cynnar, ar ddechrau gweinidogaeth Morgan Griffith.

Ordeiniwyd ef yn weinidog eglwys Limehouse yn Llundain, yn 1709, ac yno y bu hyd ei farw, 26 Mai 1748, yn 64 oed. Y mae sôn amdano yn cymodi mewn dadl Arminaidd yn yr Hengoed yn 1730, a'i waith ef yn enw ei eglwys yw'r erthygl ynghylch arddodiad dwylo yn argraffiad 1721 o'r *Gyffes Ffydd Gymraeg*, ond cofir ef orau am ei ddadl fedydd â Fowler Walker, y Fenni, a'i weithiau ar y pwnc: (1) *Adnodau ar rai Lleoedd Cableddus a Sarhaus o Lyfrau ... ar Fedydd Plant*, 1732, ac (2) *Infant Baptism, No Institution of Christ*, 1734. At hyn, cyhoeddodd (3) *A Free and Sober Enquiry into the truth of certain paragraphs contained in the Assembly's Shorter Catechism*, 1736; (4) *Reasons for and against Singing of Psalms*, 1737; a thair pregeth dan y teitlau (5) *The State of True Religion in all Ages*, 1726, a (6) *A Modest Plea for the maintenance of the Christian Ministry*, 1729, a (7) *A View of the Divine Conduct, in the Government of this Lower World*, 1730; ac argraffwyd ei bregeth angladdol gan Joseph Stennett dan y teitl *The Everlasting Covenant the best Support*, 1748.

Awdur

Benjamin George Owens

Ffynonellau

Hanes y Bedyddwyr ymhlith y Cymry: o amser yr Apostolion, hyd y flwyddyn hon: yn ddwy ran (1778), 180

Joshua Thomas, *A History of the Baptist Association in Wales* (1795), 45

Hanes y Bedyddwyr yn Nghymru, iii, 33

Joseph Stennett, *The everlasting covenant the best support, under all afflictions, and at a dying hour* (London 1748)

W. Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry*, 361, 365

Hengoediana, sef, Hanes Eglwys y Bedyddwyr yn Hengoed (1861), 08

The New Hengoediana, or the History of Hengoed Baptist Church (1910), 37

William Richards, John Evans (gol.), *The Welsh nonconformists' memorial, or, Cambro-British biography: containing sketches of the founders of the Protestant dissenting interest in Wales*, 261

H. Blackwell, NLW MS 9271A: A Dictionary of Welsh Biography

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* (Aberdâr 1867-70), ii, 463

Enwogion y Ffydd (1880), iii, 119

Y Gwyddoniadur Cymreig (1889–96), ail arg., ix, 48D

Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru (1870), 874

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 54576643

Wikidata: Q20732883

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu